

CYNGOR BRO MORGANNWG
ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU | 2019 - 2021



CYNNWYS

RHAGAIR 5

NODYN AR COVID 7

BETH YW CRAFFU? 8

LLES CENEDLAETHAU'R DYFODOL 11

MESUR EFFAITH CRAFFU 13

CWRDD Â'R PWYLLGORAU 15

MEYSYDD ALLWEDDOL GWEITHGARWCH CRAFFU 17

GWAITH GORCHWYL A GORFFEN PARHAUS 21

CYMORTH AR GYFER CRAFFU 23

ADRODDIAD CYNNYDD 23

YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD 25

EISIAU GWYBOD MWY? 26

RHAGAIR

GAN GADEIRYDD GRŴP CADEIRYDDION AC IS-GADEIRYDDION Y PWYLLGOR CRAFFU.

Fel Cadeirydd Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol Craffu 2019 - 2021. Mae'n rhoi cyfrif o'r cynnydd a wnaed yn ystod y ddwy flynedd fwrdeistrefol ddiwethaf, gan gynnwys rhai o'r darnau allweddol o waith a wnaed gan y Pwyllgorau ynghyd â meysydd sy'n cael eu hystyried wrth symud ymlaen.

Mae'r cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn wedi bod heb ei debyg ym mhob ystyr ac mae wedi bod yn eithriadol o brysur a heriol ar gyfer Craffu. Mae'n bwysig rhannu rhai o'r materion yr ydym wedi'u harchwilio a'r heriau rydym wedi'u hwynebu dros y ddwy flynedd ddiwethaf â'r holl Aelodau a'r gymuned ehangach.

Hoffwn ddiolch i Aelodau'r Pwyllgorau Craffu am eu hymrwymiad a'u cyfraniadau at ein gwaith, yn ogystal â'r Swyddogion sydd wedi ein cefnogi mor effeithiol. Yn ystod 2019 - 2021 roedd y Cyngor yn wynebu un o'i cyfnodau heriol eto o ran ei ymateb i bandemig COVID-19. Er bod cyfarfodydd wedi'u hatal ar ddechrau'r pandemig, mae Pwyllgorau Craffu wedi parhau i fonitro perfformiad ac ystyried ffyrdd o wella er mwyn cynnal, datblygu a gwella gwasanaethau i bobl ym Mro Morgannwg. Mae'r Pwyllgorau hefyd wedi mynd i'r afael â rhai o'r prif faterion sy'n effeithio ar ein cymunedau a gobeithio y cytunwch â mi ein bod wedi ceisio gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r broses ffurfiol o wneud penderfyniadau. Trwy lunio'r adroddiad hwn rydym yn gobeithio rhoi blas i chi o'r lefel neu'r gwaith a wneir a dealltwriaeth o'r rôl a chwaraeir gan y Pwyllgorau Craffu.

Rwyf bob amser wedi pwysleisio pwysigrwydd i Bwyllgorau Craffu gynnal meddwl agored a beirniadol, i roi beirniadaeth mewn ffordd adeiladol ac i gynnig ganmoliaeth ddiffuant lle bo'n briodol. Wrth symud ymlaen, bydd Pwyllgorau Craffu'n parhau i geisio bod yn "ffrind beirniadol" wrth gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i drigolion, partneriaid lleol, rhanddeiliaid allweddol a thystion sydd wedi rhoi o'u hamser i gynorthwyo'r broses Graffu drwy gydol y ddwy flynedd ddiwethaf.

Y CYNGHORYDD MARK WILSON

Cadeirydd - Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y
Pwyllgorau Craffu a Chadeirydd - Pwyllgor Craffu Perfformiad ac
Adnoddau Corfforaethol



“ Yn ystod 2019 - 2021 bu'r Cyngor yn wynebu un o'i gyfnodau mwyaf heriol hyd yma o ran ei ymateb i'r pandemig COVID-19. ”

Y Cyngorydd Mark Wilson

NODYN AM COVID-19

Ar 23 Mawrth 2020, cyhoeddwyd Cyfnod Clo Cenedlaethol o ganlyniad i bandemig y coronafeirws. O ystyried y cyfyngiadau a roddwyd ar waith gan Lywodraethau'r DU a Chymru, ac er mwyn sicrhau diogelwch Cynghorwyr, aelodau staff a'r cyhoedd, cafodd pob cyfarfod wyneb yn wyneb Pwyllgorau'r Cyngor eu hatal hyd nes y rhoddir rhybudd pellach.

Er bod cyfarfodydd y Pwyllgorau wedi'u hatal, cynhaliwyd llywodraethu'r Cyngor ynghylch materion yr oedd angen gweithredu arnynt ar unwaith trwy'r weithdrefn Pwerau Brys. Fodd bynnag, penderfynwyd, wrth arfer ei ddefnydd o Bwerau Brys, y dylai'r Rheolwr Gyfarwyddwr ymgynghori â Chadeiryddion perthnasol y Pwyllgorau Craffu ar faterion sy'n ymwneud â pholisi, gan sicrhau o ganlyniad bod Gweithgarwch Craffu yn parhau nes y gallai cyfarfodydd y Pwyllgorau aildechrau.

Mewn amgylchiadau digynsail ac yn dilyn ymdrechion Gwasanaethau Democrataidd a TGCh, llwyddodd y Cyngor i aildechrau ei amserlen cyfarfodydd Craffu o bell gyda chyfarfod cyntaf y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol ym mis Gorffennaf 2020, a'r holl Bwyllgorau Craffu oedd yn ymgynnull o bell bob mis o fis Medi 2020.

Er mwyn cyflawni hyn, nododd Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu lwyfannau fideogynadledda priodol i fodloni gofynion Pwyllgorau Craffu, ac ar y cyd â chydweithwyr mewn TGCh yn darparu hyfforddiant ac arweiniad i sicrhau bod Cynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn gallu ymwneud yn llawn â'r broses Graffu, boed hynny trwy ddyfais fideogynadledda neu alwad ffôn.

Mae cyfarfodydd craffu a gynhelir o bell wedi'u recordio ac ar gael i'w gweld cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod ar sianeli YouTube y Cyngor. Mae Swyddogion Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu wedi sefydlu sianel YouTube bwrpasol ar gyfer recordiadau o gyfarfodydd, gan ei gwneud yn haws i aelodau'r cyhoedd gyrchu a gwylio cyfarfodydd perthnasol a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gweithgarwch Craffu diweddaraf yn y Fro mewn modd diogel.

O ganlyniad i atal y cyfarfodydd tua diwedd 2019/20 ac ar ddechrau 2020/21, bydd yr adroddiad hwn yn rhoi cyfrif am y ddwy flynedd fwrdeistrefol.

BETH YW CRAFFU?

MAE PWYLLGORAU CRAFFU YN GWNEUD GWAITH PWYSIG IAWN I GYNGOR BRO MORGANNWG A'I BARTNERIAID.

Mae'n rhoi tawelwch meddwl i bobl leol, yn cynorthwyo i ddatblygu polisi, yn herio perfformiad y Cyngor ac yn dal y Weithrediaeth yn atebol am ei benderfyniadau.

Mae Craffu yn "**gyfaill beirniadol**", gan gymryd cam yn ôl oddi wrth benderfyniadau o ddydd i ddydd i edrych ar ganlyniadau i drigolion lleol, a'u hadolygu.

Gall Pwyllgorau Craffu wneud argymhellion a chraffu ar bolisiâu, penderfyniadau a pherfformiad y Cabinet. Mae'r Cabinet, yn ei dro yn ymgynghori â'r Pwyllgorau Craffu ar faterion, ac yn ymateb i argymhellion y Pwyllgorau Craffu.


Mae pum Pwyllgor Craffu yng Nghyngor Bro Morgannwg:

- Perfformiad Corfforaethol ac Adnoddau
- Yr Amgylchedd ac Adfywio
- Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol
- Cartrefi a Chymunedau Diogel
- Dysgu a Diwylliant

SUT MAE CRAFFU YN GWEITHIO YN Y FRO?

Yn 2016/17 cyflwynwyd dull newydd i'r ffordd yr oedd Craffu yn gweithredu ym Mro Morgannwg. Cytunodd y Cyngor fod yn rhaid i waith Craffu gael ei wneud ochr yn ochr â phedwar Canlyniad Lles newydd y Cyngor.

Felly, roedd pob Pwyllgor yn gysylltiedig ag un neu fwy o Ganlyniadau Lles y Cyngor, yn unol â Chynllun Corfforaethol y Cyngor, â'i Amcanion unigol ei hun, fel a ddangosir:



Cafodd yr Amcanion hyn eu teilwra i gylch gorchwyl a maes ffocws y Pwyllgor, gyda Blaenraglenni Gwaith blynyddol yn cael eu llunio (a'u diweddarau bob chwarter) i ddangos y materion i'w hystyried.

CYNLLUN CORFFORAETHOL BRO MORGANNWG 2020-25

Ym mis Chwefror 2020 cymeradwyodd y Cabinet a'r Cyngor Llawn Gynllun Corfforaethol newydd, sef dogfen strategol allweddol y Cyngor sy'n nodi sut mae ei weledigaeth ar gyfer Cymunedau Cryf â Dyfodol Disglair yn cael ei gwredu dros gyfnod o bum mlynedd. Ymgynghorwyd â'r holl Bwyllgorau Craffu ynghylch datblygu'r cynllun newydd a chyfrannu ato.

Datblygwyd cyfres newydd o Amcanion Lles:

- Gweithio gyda a thros ein cymunedau;
- Ategu dysgu, cyflogaeth a thwf economaidd cynaliadwy;
- Cynorthwyo pobl gartref ac yn eu cymuned;
- Parchu, gwella a mwynhau ein hamgylchedd.


Mae'r Amcanion Lles hyn yn adlewyrchu ymagwedd fwy integredig a thrawsbynciol at waith y Cyngor ac yn dangos sut bydd camau gweithredu ar draws Cyfarwyddiaethau'r Cyngor yn cyfrannu at nifer o amcanion.

Cyhoeddir Cynllun Cyflawni Blynyddol manwl bob gwanwyn sy'n manylu ar y gweithgareddau allweddol yr ymgymeryd â hwy er mwyn cyflawni'r ymrwymadau a geir yn y cynllun Corfforaethol, gyda phob Pwyllgor Craffu yn cyfrannu at y broses ddrafftio. Bydd hyn yn llywio'n uniongyrchol Gynlluniau Gwasanaeth unigol sydd hefyd yn cael eu creu bob blwyddyn ac yn manylu ar fesurau perfformiad a thargedau blynyddol. Mae'r rhain hefyd yn cael eu monitro'n agos gan Bwyllgorau Craffu.

Yng nghyfarfod cyntaf pob Pwyllgor Craffu yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol, rhoddir cyflwyniad am y Cynllun Cyflawni Blynyddol yng nghyd-destun y Cynllun Corfforaethol a chylch gorchwyl y Pwyllgor. Mae'r cyflwyniad hwn yn galluogi Aelodau'r Pwyllgor Craffu i nodi unrhyw feysydd sydd â ffocws penodol i'r Pwyllgor hwnnw am y flwyddyn ac, thrwy wneud hynny, gyfeirio Rhaglen Waith y Pwyllgor.

Yn unigol a chyda'i gilydd, mae pob Pwyllgor Craffu yn ymgymryd â'i waith yn y ffyrdd canlynol:

- Ymdrechu i wella gwasanaethau i gael gwell canlyniadau i drigolion;
- Clywed barn a lleisiau'r cyhoedd;
- Ychwanegu gwerth i'r ffordd y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud;
- Ymddwyn yn gadarnhaol fel 'cyfaill beirniadol'; a
- Dysgu gan eraill.



DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

(CYMRU) 2015

**MAE'R DDEDDF YN EI GWNEUD YN OFYNNOL I GYRFF CYHOEDDUS YNG
NGHYMRU FEDDWL**

**AM EFFAITH HIRDYMOR EU PENDERFYNIADAU, GWEITHIO'N
WELL GYDA PHOBL, CYMUNEDAU A'I GILYDD AC ATAL
PROBLEMAU PARHAUS MEGIS TLODI, ANGHYDRADDOLDEB
IECHYD A NEWID YN YR HINSAWDD TRWY YSTYRIED PUM
FFORDD O WEITHIO.**

**OTHER, AND TO PREVENT PERSISTENT PROBLEMS SUCH AS
POVERTY, HEALTH INEQUALITIES AND CLIMATE CHANGE BY
CONSIDERING FIVE WAYS OF WORKING.**

Mae'r Pum Ffordd o Weithio hyn yn rhoi fframwaith i gyrff cyhoeddus weithio i gyflawni'r saith Nod Lles cenedlaethol i Gymru fel y'u nodir gan y Ddeddf.

Rhwng mis Mai 2019 a mis Ebrill 2021 mae llawer o Eitemau Blaenraglenni Gwaith y Pwyllgorau Craffu wedi dangos eu hymrwymiad i gyflawni eu gwaith yn unol â'r Ddeddf:

Y PUM FFORDD O	EITEMAU BLAENRAGLENNI GWAITH
<p>MEDDWL AM Y TYMOR HIR</p> <p>Pwysigrwydd cydbwysio anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • STRATEGAETH DDRAFFT CARTREFI GWAG 2019-24 – Cartrefi a Chymunedau Diogel • CYMORTH I OFALWYR YM MRO MORGANNWG. - Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol • CYNLLUN CORFFORAETHOL CYNGOR BRO MORGANNWG DRAFFT 2020-25 – Pob Pwyllgor Craffu • ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BRO MORGANNWG 2019 – Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol • STRATEGAETH ADFER YN SGIL Y CORONAFEIRWS – Pob Pwyllgor Craffu • Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM Y CYNNIG I GYNYDDU NIFER Y LLEOEDD MEWN YSGOLION CYNRADD YN Y BONT-FAEN I ATEB Y GALW CYNYDDOL O GANLYNIAD I DAI DIWEDDAR AC ARFAETHEDIG DATBLYGIADAU – Dysgu a Diwylliant • FFRAMWAITH DATBLYGU CENEDLAETHOL (FFDC) 2020-2040 YMGYNGHORIAD DRAFFT - YMATEB I LYWODRAETH CYMRU – Yr Amgylchedd ac Adfywio

**DEFNYDDIO
YMAGWEDD
INTEGREDIG**

Ystyried sut y gall amcanion lles y Cyngor effeithio ar amcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

- **DEDDF TAI (CYMRU) 2014 CYCHWYN ADRAN 75(3)-PENDERFYNIADAU AM FWRIADOLDEB DIGARTREF** – Cartrefi a Chymunedau Diogel
- **GWASANAETHAU TELEOFAL (TECHNOLEG BYW Â CHYMORTH)** – Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol
- **STRATEGAETH DDIGIDOL-CWSMERIAID A GWEITHWYR** – Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol
- **AMCANION CYDRADDOLDEB STRATEGOL LLYWODRAETH CYMRU -YMATEB DRAFFT I'R YMGYNGHORIAD** – Dysgu a Diwylliant
- **TYNNU CYLLID DISGRESIYNOL YN ÔL AM WASANAETHAU TRAFNIDIAETH YSGOL Y TELIR AMDANYNT** – Yr Amgylchedd ac Adfywio

**DEFNYDDIO
YMAGWEDD
ATALIOL**

Sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu'r Cyngor i fodloni ei amcanion:

- **EFFEITHIAU DIWYGIO LLES AR DENANTIAID TAI CYNGOR** – Cartrefi a Chymunedau Diogel
- **STRATEGAETH ATAL HUNANLADDIAD A HUNAN-NIWEIDIO CAERDYDD A'R FRO 2017-20** – Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol
- **ADRODDIAD ABSENOLDEB SALWCH 2018/19** – Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol
- **Y DIWEDDARAF AM YMGYSYLLTU A DATBLYGIAD IEUENCTI** – Dysgu a Diwylliant
- **MORGLAWDD CAERDYDD PENARTH CORIDOR TRAFNIDIAETH CYNALIADWY WELTAG CAM UN A DIWEDDARIAD CAM DAU** – Yr Amgylchedd ac Adfywio

CYDWEITHIO

Gweithredu ar y cyd ag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r Cyngor ei hun) a allai helpu'r Cyngor i gyflawni ei amcanion lles.

- **GWASANAETH TROSEDDAU IEUENCTID CYNLLUN CYFIAWNDER IEUENCTID** – Cartrefi a Chymunedau Diogel
- **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDWEITHREDOL Y FRO, Y CYMOEDD A CHAERDYDD 2018-19** – Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol
- **ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS BRO MORGANNWG 2019-20** – Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol
- **DYSGU OEDOLION YN Y GYMUNED** – Dysgu a Diwylliant
- **CYFRANIADAU TAI FFORDDIADWY ODDI AR Y SAFLE ADRAN 106** – Yr Amgylchedd ac Adfywio / Cartrefi a Chymunedau Diogel

CYNNWYS POBL

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau lles, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r Cyngor yn ei gwasanaethu.

- **ADRODDIAD CYNNYDD Y CYDLNYDD ASESIADAU AC ATGYFEIRIADAU CAM-DRIN DOMESTIG** – Cartrefi a Chymunedau Diogel
- **ADRODDIAD CRYNO DIOGELU CORFFORAETHOL** – Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol
- **ADRODDIAD DIWEDDARU CHWARAEON A CHWARAE** – Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol
- **CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL DRAFFT CYNGOR BRO MORGANNWG 2020-24** – Dysgu a Diwylliant
- **PARCIO CEIR - EGWYDDORION ARWEINIOL A FFIODED** – Yr Amgylchedd ac Adfywio

MESUR EFFAITH CRAFFU



**YN YSTOD Y BLYNYDDOEDD BWRDEISTREFOL BLAENOROL A CHYFREDOL, MAE EIN PWYLLGORAU CRAFFU WEDI RHOI MWY O BWYSLAIS
AR FESUR EFFAITH Y GWAITH Y MAENT YN EI WNEUD.**

Fodd bynnag, mae wedi bod yn bwysig cydnabod yr heriau a wynebir wrth geisio asesu effaith Craffu o gofio nad yw ei ganlyniadau cadarnhaol bob amser yn hawdd eu mesur ac yn aml dim ond dros gyfnodau hirach maent yn dod i'r amlwg, ac felly ni ellir eu cofnodi'n hawdd trwy Weithdrefnau Orlhain Penderfyniadau neu Adroddiadau Blynyddol chwarterol arferol y Cyngor.

Fodd bynnag, mae rhai metrigau y gellir eu defnyddio i fonitro canlyniadau uniongyrchol Craffu a all, yn eu tro, roi syniad o'i effaith ar brosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod:

CERDYN SGORIO CRAFFU BRO MORGANNWG 2019-21

- Nifer y Cyfarfodydd Pwyllgor Craffu **81** *
- Nifer y Cyfarfodydd Pwyllgor Craffu a glywodd gan Siaradwyr Cyhoeddus **9**
- Aelodau o'r Cyhoedd sydd wedi cyflwyno sylwadau ar lafar mewn Cyfarfodydd Craffu **35**
- % yr Eitemau Cabinet gyda mewnbwn Craffu **34%**
- % yr argymhellion Craffu y cytunwyd arnynt gan y Cabinet **27%**

* Sylwer: oherwydd y cyngor gan y Llywodraeth a gyhoeddwyd mewn perthynas â dechrau'r achosion o COVID-19 ym mis Mawrth 2020, ataliwyd cyfarfodydd Craffu rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020.

SYLWADAU'R AELODAU

Ym mis Chwefror 2020 gofynnwyd i bob Aelod o Bwyllgorau Craffu gwblhau Holiadur Effaith Craffu fel y gall fwydo'n ôl ar faterion megis a yw Craffu'n cael effaith gadarnhaol ar waith y Cyngor, sut mae eu cyfraniadau eu hunain wedi effeithio ar y drafodaeth a'r argymhellion a wnaed, a sut y gellid gwella Craffu yn y Fro.

DYMA RAI O UCHAFBWYNTIAU'R YMATEBION A GAFWYD:

Ydych chi'n teimlo bod y Pwyllgor Craffu wedi cael effaith gadarnhaol ar waith y Cyngor yn dilyn Cyfraniad Craffu?

“... cynnig cyfleoedd i'r cyhoedd gael eu clywed yn y broses o wneud penderfyniadau. Amrywiaeth eang o Gynghorwyr yn rhoi barn fwy byd-eang ar drafodaethau lleol a'u heffaith.”

Ydych chi'n teimlo bod y Pwyllgor Craffu wedi cael effaith gadarnhaol ar waith y Cyngor yn dilyn Cyfraniad Craffu?

“Bu llwyddiannau nodedig megis dechrau monitro lefelau tywod nad oedd gennym unrhyw data ar eu cyfer o'r blaen; mae trafodaethau â swyddogion ynghylch parcio a ffioedd parcio wedi bod yn adeiladol iawn ac wedi arwain at atebion adeiladol y cytunwyd arnynt gan y Cyngor llawn.”

Ydych chi'n teimlo bod y Pwyllgor Craffu wedi cael effaith gadarnhaol ar waith y Cyngor yn dilyn Cyfraniad Craffu?


“Roedd y Pwyllgor yn allweddol wrth hyrwyddo'r pwnc o gynhyrchion misglwyf am ddim i ferched ysgol.”

“Herio a gofyn am atebion i gwestiynau a allai cael eu hysgogi gan benderfyniadau neu awgrymiadau gan swyddogion neu'r Cabinet.”

Sut rydych chi'n teimlo bod eich cyfraniadau yn y Pwyllgor Craffu wedi effeithio ar y drafodaeth ac unrhyw argymhellion a wnaed?

“... Cafodd cytiau traeth eu gosod yn Ynys y Barri ac mae'r datblygiadau sydd ar fin digwydd yn y Knap yn ganlyniad i'm galwad am archwiliad o holl eiddo arfordirol y Cyngor yn y Fro.”

CWRDD Â'R PWYLLGORAU



PERFFORMIAD AC ADNODDAU CORFFORAETHOL

AMCANION A'R CYLCH GWAITH:

Pwyllgor Trosolwg sy'n delio ag Iechyd Corfforaethol, gwaith mewnol y Cyngor, ei gyllid a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cadeirydd: Y Cynghorydd Mark Wilson

Is-gadeirydd: Y Cynghorydd Pamela Drake (2020/21);

Y Cynghorwyr: George Carroll, Geoff Cox, Robert Crowley, Vince Driscoll, Owen Griffiths (Is-gadeirydd 2019/20), Gwyn John, Ian Johnson, Ruba Sivagnanam a John Thomas

YR AMGYLCHEDD AC ADFYWIO

AMCANION:

- Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth.
- Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu ein hamgylchedd.

GYLCH GWAITH:

Rheoli Gwastraff, Cynnal a Chadw Priffyrdd, Cynllunio (ond nid materion fel ceisiadau cynllunio), Trafnidiaeth a Datblygu Economaidd.

Cadeirydd: Y Cynghorydd Bronwen Brooks;

Is-gadeirydd: Y Cynghorydd Ruba Sivagnanam;

Y Cynghorwyr: Vincent Bailey, Pamela Drake, Vince Driscoll, Gwyn John, Michael Morgan, Andrew Robertson, Leighton Rowlands a Steffan Wiliam

BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

AMCANION

- Annog a hyrwyddo bywyd actif ac iach.
- Diogelu'r rhai sy'n agored i niwed a hybu byw'n annibynnol.

GYLCH GWAITH:

Gwasanaethau Oedolion (fel Cartrefi Gofal), Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (fel y Gwasanaeth Mabwysiadu), Hamdden, Parciau, Chwaraeon a Chwarae.

Cadeirydd: Y Cynghorydd Janice Charles (2020/21)

Is-gadeirydd: Y Cynghorydd Neil Thomas;

Y Cynghorwyr: Julie Aviet, Owen Griffiths, Stephen Griffiths, Hunter Jarvie, Kevin Mahoney (2019/20), Rachel Nugent-Finn (Cadeirydd 2019/20), Bob Penrose (2019/20) a John Thomas



CARTREFI A CHYMUNEDAU DIOGEL

AMCANION

- Cynnig cartrefi safonol a chymunedau diogel.
- Lleihau tlodi ac allgau cymdeithasol.

GYLCH GWAITH:

Tai Cyngor a gwaith cynnal a chadw cysylltiedig, Tai'r Sector Preifat, Diogelwch Cymunedol, Trosedd ac Anhrefn (gan gynnwys Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid) a swyddogaethau'r Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir.

Cadeirydd: Y Cynghorydd Sandra Perkes, y Cynghorydd Amelia Collins (o fis Mawrth 2021);

Is-gadeirydd: Y Cynghorydd Julie Aviet;

Y Cynghorwyr: Jonathan Bird, Bronwen Brooks, Christine Cave, Stephen Griffiths (2019/20), Sally Hanks, Rachel Nugent-Finn (2020/21) Andrew Parker a Leighton Rowlands

1 cynrychiolydd arsylwi a gyfetholir nad yw'n pleidleisio, o bob un o'r sefydliadau canlynol:

- Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro
- 4 cynrychiolydd o'r Gweithgor/Panel Tenantiaid

DYSGU A DIWYLLIANT

AMCANION

- Codi safonau cyrhaeddiad yn gyffredinol.
- Gwerthfawrogi diwylliant ac amrywiaeth.

GYLCH GWAITH:

Pob mater sy'n ymwneud ag ysgolion (sy'n cynnwys Gwella Ysgolion, Addysg Ôl-16, Addysg Gymunedol), Gwasanaethau Ieuenctid, y Gwasanaeth Llyfrgell, Cydraddoldebau, y Gymraeg a Datblygu'r Celfyddydau.

Cadeirydd: Y Cynghorydd Stephen Griffiths (2020/21)

Is-gadeirydd: Y Cynghorydd Rhiannon Birch;

Y Cynghorwyr: Andrew Davies (2019/20), Nic Hodges, Hunter Jarvie, Gordon Kemp (Cadeirydd 2019/20) Jayne Norman, Andrew Parker, Sandra Perkes, Leighton Rowlands (2020/21) a Neil Thomas

Wedi'u gwahodd hefyd fel aelodau cyfetholedig:

- Yr Eglwys Gatholig
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Rhiant-lywodraethwr – Y Sector Uwchradd
- Rhiant-lywodraethwr - Y Sector Uwchradd

Wedi'u gwahodd hefyd fel arsylwyr dibleidlais:

- Penaethiaid
- Cynradd/ Uwchradd/ Arbennig
- Addysg Gymraeg
- Eglwysi Rhydd
- Fforwm Ieuenctid y Fro

MEYSYDDALLWEDDOL GWEITHGARWCH CRAFFU 2019-21

SIOP AILDDEFNYDDIO AC AILGYLCHU

PWYLLGOR CRAFFU: Yr Amgylchedd ac Adfywio

GWEITHGAREDD: Cynghorwyd yr Aelodau gan Swyddogion fod y syniad o agor siop aildefnyddio ac ailgylchu yn cael ei archwilio fel menter gymdeithasol, ac argymhellwyd gan y Pwyllgor y dylid trefnu ymweliad safle â chyfleuster a sefydlwyd gan Awdurdod Lleol arall.

Ym mis Chwefror 2020, trefnwyd ymweliad safle i Aelodau a Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Cymdogaeth i'r siop aildefnyddio ac ailgylchu 'Tip Treasure' yn Abertawe. Profodd hyn i fod yn addysgiadol iawn ac roedd yn gyfle i'r Aelodau a'r Swyddog arsylwi ar redeg y siop a siarad ag aelodau'r staff er mwyn cael cipolwg defnyddiol ar ymarferoldeb sefydlu a rhedeg gweithrediad tebyg yn y Fro.

CANLYNIAD: Cadarnhawyd yn y [Cyfarfod Pwyllgor Hydref 2020](#) bod Bro Morgannwg, yn dilyn yr ymweliad safle, wedi llwyddo i wneud cais am £358,000 gan Lywodraeth Cymru i sefydlu siop aildefnyddio ar Ystâd Fasnachu Iwerydd, gan ddarparu nifer o fuddion cymunedol i drigolion Bro Morgannwg a helpu'r Cyngor i wneud cynnydd pellach tuag at gyflawni ei Amcanion Lles.



PARCIO CEIR YM MRO MORGANNWG

PWYLLGOR CRAFFU: **Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol + Yr Amgylchedd ac Adfywio**

GWEITHGAREDD: Cafodd adroddiad am y mater hwn ei gyfeirio at y ddau Bwyllgor Craffu gan y Cabinet ym mis Ebrill 2019 gan ennyn llawer o ddiddordeb, gyda 10 siaradwr cyhoeddus a 9 Cynghorydd yn gofyn am ganiatâd i annerch y Pwyllgorau, a wnaeth nifer o argymhellion a gyfeiriwyd yn ôl at y Cabinet. Pan ystyriwyd y mater eto ym mis Gorffennaf 2019, penderfynodd y Cabinet y dylid bwydo'r argymhellion i adolygiad cynhwysfawr a manwl o'r pwnc.

CANLYNIAD: Ym mis Chwefror 2020, mae cyfres o [Egwyddorion Arweiniol a Chodi Tâl am Barcio Ceir yn y Fro](#) eu dwyn i'r Cabinet a ffurfiwyd gan ystyried y safbwyntiau a gafodd eu bwydo'n ôl gan y ddau Bwyllgor Craffu. Ystyriwyd y cynigion diwygiedig yng nghyfarfodydd nesaf pob Pwyllgor, a chytunwyd eu bod wedi gwella'n fawr.

Roedd y cynigion diwygiedig yn gwyro'n sylweddol oddi wrth y rhai a gyflwynwyd yn flaenorol, gan ddangos bod y swyddogaeth Craffu yn rhoi cyfle i drigolion Bro Morgannwg mynd i'r afael ag Aelodau, mynegi eu barn a llunio polisiau lleol sy'n bwysig iddynt.

GWAITH ADNEWYDDU YSTAFELLOEDD NEWID CANOLFANNAU HAMDDEN

PWYLLGOR CRAFFU: **Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol**

GWEITHGAREDD: Roedd y Pwyllgor eisoes (Gorffennaf 2017) wedi ffurfio Gweithgor Aelodau'r Contract Rheoli Hamdden a grëwyd i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir mewn Safleoedd Hamdden Etifeddiaeth tua'r adeg y dechreuodd y Canolfannau Hamdden brosiect adnewyddu mawr o'u cyfleusterau ystafell newid. Y nod oedd sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod ar gael i'r cyhoedd tra bod y gwaith yn cael ei wneud i wella'r cyfleusterau i breswylwyr.

CANLYNIAD: Daeth y gwaith yn ystafelloedd newid gwlyb a sych y Barri a Phenarth i ben ym mis Chwefror 2020 pan ailagorodd yr ystafelloedd i'r cyhoedd. Cynhaliwyd [cyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror 2020](#) yng Nghanolfan Hamdden Penarth a cyn ei gynnal trefnwyd taith o amgylch y cyfleusterau gyda'r nod o ddangos i'r Aelodau'n bersonol nodau ac effaith gadarnhaol y gwasanaeth ar gyfer ysbrydoli buddion iechyd ar draws y cenedlaethau.

GWASANAETH CYDLYNWYR CAM-DRIN DOMESTIG, ASESU AC ATGYFEIRIO (DAARC)

PWYLLGOR CRAFFU: Cartrefi a Chymunedau Diogel

GWEITHGAREDD: Lansiodd y gwasanaeth DAARC ym mis Ebrill 2018, gyda'r nod o:

- Roedd lleihau nifer yr Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd Rhag Cam-drin Domestig (HDCau CD) yn cynyddu o risg safonol a chanolog i risg uchel;
- Lleihau nifer yr HDCau CD mynych;
- Lleihau nifer yr atgyfeiriadau amhriodol o HDCau CD i wasanaethau o fewn y llwybr;
- Lleihau nifer yr atgyfeiriadau dyblyg o HDCau CD at wasanaethau o fewn y llwybr;
- Gwella profiad y llwybr i ddiodeffwyr;
- Gwella diogelwch a chanlyniadau diodeffwyr; a
- Gwella cyfathrebu yn y llwybr lle mae nifer o asiantaethau'n ymwneud ag un cleient.

Cyflwynwyd adroddiad diweddar i'r Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2019 a ddangosodd y bu gostyngiad mewn atgyfeiriadau amhriodol ar draws y llwybr, gostyngiad mewn atgyfeiriadau dyblyg ac, yn hollbwysig, ostyngiad yn narpariaeth y gwasanaethau ymyrraeth gynnar i'r rhai sy'n dioddef cam-drin domestig yr asesir eu bod yn risg safonol neu ganolog lle y byddent wedi gorfod aros nes i'w sefyllfa gynyddu i risg uchel cyn cael y cymorth yr oedd ei angen arnynt.

CANLYNIAD:

Craffodd y Pwyllgor ar ddyfodol cyllid ar gyfer y gwasanaeth, yr angen i ganolbwyntio ar feysydd eraill cam-drin ac effeithiolrwydd y cynllun peilot. Trwy ymdrechion y pwyllgor, mae'r prosiect DAARC yn cael manylion grwpiau Tenantiaid a oedd wedi'u sefydlu i gynnig cymorth a chefnogaeth i deuluoedd lle roedd cam-drin domestig wedi digwydd o fewn eu teuluoedd, er mwyn cydgysylltu â nhw a chydlynu eu hymdrechion. At hynny, wrth ystyried Cynigion y Gyllideb Refeniw Cychwynnol 2021/22 ym mis Rhagfyr 2020, argymhellodd y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel i'r Cabinet (trwy'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol) eu bod yn ystyried gwerth a phwysigrwydd parhaus gwasanaeth DAARC wrth edrych ar bwysau costau cyn pennu'r gyllideb refeniw.

CYNNIG I GYNYDDU NIFER Y LLEOEDD MEWN YSGOLION CYNRADD YN y BONT-FAEN


PWYLLGOR CRAFFU: Dysgu a Diwylliant

GWEITHGAREDD: Ystyriwyd y mater i ddechrau gan y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2019 fel rhan o'r broses ymgynghori ar gyfer cynnig a fyddai'n cynnwys sefydlu ysgol pob oed newydd â 2,006o leoedd 3-19 oed o fis Medi 2022, trwy gyfuno Ysgol Gynradd y Bont-faen ac Ysgol Gyfun y Bont-faen. Cofrestrodd 11 aelod o'r cyhoedd i siarad am y mater, gyda phump yn cynrychioli buddiannau'r Bont-faen a wrthwynebodd y penderfyniad i gau'r ysgol, a chwech yn cynrychioli buddiannau Ysgol Gyfun y Bont-faen a oedd o blaid mabwysiadu model ysgol pob oed. Cyflwynwyd tri sylw ysgrifenedig hefyd gan aelodau o'r cyhoedd. Bu'r sylwadau a wnaed gan y siaradwyr cyhoeddus yn ysgogi trafodaeth fanwl ymysg Aelodau a Swyddogion, ac roedd sylwadau a wnaed gan bob parti yn bwydo i mewn i adroddiad ymgynghori a gyflwynwyd wedyn i'r Cabinet.

CANLYNIAD:

Ar sail y farn gref a fynegwyd gan y ddwy ochr wrth ystyried y cynnig cychwynnol, cyflwynwyd cynnig diwygiedig i'r Pwyllgor ym mis Hydref 2020 ynghylch ffordd ymlaen newydd a ffefrir. Nid oedd y cynnig newydd yn ystyried cau Ysgol Gynradd Y Bont Faen, ond parhaodd gyda'r model pob oed awgrymedig ar gyfer Ysgol Gyfun y Bont-faen, a *nodwyd yn ystod y cyfarfod* bod ymateb cryf y cyhoedd wrth i'r Pwyllgor Craffu ystyried yr ymgynghoriad cychwynnol wedi'i gymryd i ystyriaeth ac wedi llywio'r cynnig newydd, gan ddangos bod trefniadau Craffu ym Mro Morgannwg yn galluogi trigolion i ymgysylltu â materion a mynegi eu barn mewn ffordd wirioneddol.

GWAITH GORCHWYL A GORFFEN PARHAUS



COST ADDYSG

PWYLLGOR CRAFFU: Dysgu a Diwylliant

GWEITHGAREDD: Yn ystod eu cyfarfod ym mis Medi 2019, cytunodd y Pwyllgor y dylid ffurfio Grŵp Gorchwyl a Gorffen er mwyn adolygu fforddiadwyedd addysg. Ym mis Ionawr 2020 daeth y Grŵp ynghyd am y tro cyntaf a chytunodd ar y pynciau yr oeddent am eu hadolygu a oedd yn cynnwys cost gwisg ysgol; costau gwersi (e.e. deunydd swyddfa, offer coginio, deunyddiau adolygu); cost a hygyrchedd digwyddiadau Proms neu Ymadawyr Ysgol; effaith y materion hyn ar les cymdeithasol ac iechyd meddwl disgyblion. Ym mis Mawrth 2020 aeth y Grŵp i Ysgol Uwchradd Pencoedtre, lle cyfarfu disgyblion a oedd yn eistedd ar y Cyngor Ysgol yn ddigon caredig i gwrdd ag Aelodau'r Grŵp er mwyn rhannu eu profiadau a'u safbwyntiau eu hunain ynghylch y costau amrywiol sy'n gysylltiedig ag addysg, a'r effaith yr oedd y rhain yn ei chael arnyn nhw a'u cyd-ddisgyblion.

Yn dilyn saib oherwydd pandemig y coronafeirws, cyfarfu'r Grŵp eto ym mis Mawrth 2021 a chytunodd, o ystyried effaith y pandemig ar drefniadau addysg, eu bod am ychwanegu rhagor o bynciau at eu cylch gwaith gan y byddai'n eu hatal rhag peidio ag ystyried y costau neu'r goblygiadau i rieni sy'n ymwneud â chau ysgolion ac addysg yn y cartref.

CANLYNIAD: Mae gwaith y Grŵp yn parhau, gyda chynlluniau i glywed adroddiadau gan swyddogion ynghylch Tlodi Mislif ac Allgáu Digidol yn ystod y pandemig cyn diwedd blwyddyn fwrdeistrefol 2020/21, a gwahoddrhieni yr effeithir arnynt gan fforddiadwyedd addysg i fynd i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn rhannu eu profiadau â'r Aelodau. Bydd y gwaith hwn yn llywio adroddiad terfynol i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu a fydd yn cynnwys argymhellion ynghylch y ffordd orau y gall ysgolion liniaru effeithiau costau addysg ar deuluoedd, gyda'r argymhellion hyn yn ffurfio cyfres o ganllawiau i'w lledaenu i ysgolion os cânt eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant a'r Cabinet wedi hynny.

DARPARIAETH TAI A DIGARTREFEDD YM MRO MORGANNWG

PWYLLGOR CRAFFU: Cartrefi a Chymunedau Diogel

GWEITHGAREDD: Ar 14 Hydref 2020, nododd y Pwyllgor Craffu Cartrefi a Chymunedau Diogel y dylai'r Pwyllgor adolygu'r ddarpariaeth tai a digartrefedd fel rhan o'r adferiad yn sgil COVID-19 ac y dylid ystyried sefydlu Gweithgor Gorchwyl a Gorffen er mwyn cyflawni hyn. Cafodd adroddiad am sefydlu'r grŵp hwn, ei aelodaeth, a gosod ei gwmpas a'i amserlenni arfaethedig ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 10 Chwefror 2021 ac a gymeradwywyd wedyn. Fel rhan o hyn, byddai'r Grŵp yn ystyried meysydd allweddol darpariaeth a pholisïau tai a digartrefedd yn awr ac yn y dyfodol – blaenoriaethau dyrannu, llywodraethu, adnoddau, strategaeth adeiladu tai, heriau neu ddatblygiadau deddfwriaethol ac ariannu sy'n dod i'r amlwg – a chynnig argymhellion ar sut i fynd ati, gweithredu neu wella ar y rhain.

CANLYNIAD: Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cwrdd yn gynnar yn 2021 (Ebrill) er mwyn edrych ar ac asesu'r meysydd diddordeb uchod (gan gynnwys ei gwmpas) a bydd yn derbyn cyfraniadau gan wahanol tystion a Swyddogion y Cyngor, er enghraifft cynrychiolwyr o Shelter Cymru a Pobl yn ogystal â Swyddogion Tai, Cyfreithiol, Cyllid ac unrhyw linellau gwasanaeth perthnasol eraill er mwyn cynhyrchu adroddiad(au) i'w cyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Craffu i'w hystyried ac i unrhyw argymhellion neu sylwadau a gymeradwywyd gael eu cyfeirio at y Cabinet.

CEFNOGI CRAFFU



Caiff craffu ei gefnogi gan swyddogion o'r Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, a'u tasg yw edrych ar ôl prosesau democrataidd yn y Fro. Mae'r fîm yn sicrhau bod gan bob Cynghorydd yr holl wybodaeth a'r dystiolaeth angenrheidiol er mwyn iddynt ystyried unrhyw bwnc neu faes diddordeb yn ddigonol.

ADRODDIAD AM GYNNYDD

DIWEDDARIAD ARCHWILIO CYMRU

Yn 2018/19, mewn ymateb i Archwilio Cymru (Swyddfa Archwilio Cymru gynt) Adroddiad SAC) [Trosolwg a Chraffu - Addas ar gyfer y Dyfodol?](#) Datblygwyd Cynllun Gweithredu gan Swyddogion y Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu i ddatblygu'r cynigion a nodwyd yn yr adroddiad.

Rhwng Mai 2019 ac Ebrill 2021 dirprwywyd camau i Swyddogion cyfrifol sydd wedi bod yn cwrdd yn fisol i drafod cynnydd, a adroddwyd wedyn i Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu i'w hystyried, ymateb iddynt a'u cymeradwyo. Mae rhai cyflawniadau allweddol sy'n ymwneud â'r cynigion i'w gweld isod:

Y CYNNIG	CYFLAWNIAD
<p>1. SGILIAU A DATBLYGIAD</p> <p>Dylai'r Cyngor ystyried ymhellach y sgiliau a'r hyfforddiant y gallai fod eu hangen ar aelodau craffu i'w paratoi'n well at heriau presennol a'r dyfodol ac i ddarparu rhaglen hyfforddi briodol.</p>	<p>Roedd Swyddogion Craffu yn cynnwys cwestiynau ynglŷn ag anghenion hyfforddi'r Aelodau yn yr Holiadur Effaith Craffu ac, ar sail ymatebion, wedi rhoi Cynllun Gweithredu ar waith sydd wedi'i gymeradwyo gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu a bydd yn ceisio mynd i'r afael â'r anghenion hyn.</p>
<p>2. FFURF A LLYWODRAETHU:</p> <p>Dylai Pwyllgorau Craffu'r Cyngor sicrhau, lle bo'n briodol, bod Aelodau Cabinet yn hytrach na swyddogion y cyngor yn cael eu dwyn i gyfrif am ddefnyddio'r swyddogaethau Gweithredol yn effeithlon yn unol â chanllawiau statudol.</p>	<p>Mae Arweinydd, Dirprwy Arweinydd a Rheolwr Gyfarwyddwr y Cyngor wedi cytuno i gynnal cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn rhwng Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu gyda'i gilydd, er mwyn hwyluso trafodaeth ynghylch y berthynas a'r disgwyliadau rhwng Aelodau'r Cabinet a Chadeiryddion Craffu, ac i alluogi Blaenraglenni Gwaith y Cabinet a Chraffu i gael eu datblygu a'u cytuno cyn cynnal cyfarfodydd ffurfiol.</p>

Y CYNNIG	CYFLAWNIAD
<p>3. SWYDDOGAETH:</p> <p>Dylai'r Cyngor adolygu math y cymorth craffu y mae ei angen er mwyn galluogi'r trefniant craffu i ymateb i heriau presennol a'r dyfodol.</p>	<p>Mae dau Swyddog ychwanegol wedi ymuno â'r Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu ers mis Mai 2019: Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu Cynorthwyol a recriwtiwyd ym mis Awst 2019, a Swyddog Gwasanaethau'r Cabinet a Phwyllgorau a recriwtiwyd ym mis Tachwedd 2019. Mae'r ymarfer recriwtio hwn wedi galluogi nifer llawn aelodau staff i fod yn eu swyddi ac wedi rhyddhau rhai aelodau o'r tîm i gefnogi gweithgarwch craffu a datblygu Aelodau Etholedig.</p>
<p>4. SWYDDOGAETH:</p> <p>Dylai'r Cyngor archwilio dulliau gwahanol a mwy arloesol o gynnal gweithgareddau craffu.</p>	<p>Ym mis Medi 2020, mae'r holl Bwyllgorau Craffu wedi bod yn cwrdd o bell, gan alluogi Aelodau a'r cyhoedd i gymryd rhan mewn gweithgarwch Craffu yn ddiogel tra bod pandemig COVID-19 yn parhau.</p>
<p>5. SWYDDOGAETH:</p> <p>Dylai'r Cyngor ystyried sut gall ei weithgareddau craffu ganolbwyntio ar y meysydd lle câi'r gwerth gorau.</p>	<p>Mae fformat Blaenraglenni Gwaith Craffu wedi'i ddiweddarau i gyd-fynd yn well â fformat y Cabinet ac i gynghori Aelodau o darddiad, diben ac effaith wirioneddol pob adroddiad. Cymeradwywyd templed newydd y Rhaglen Waith gan Grŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu ym mis Mawrth 2020 ac fe'i cymerwyd i bob Pwyllgor yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn fwrdeistrefol ganlynol.</p>
<p>6. SWYDDOGAETH:</p> <p>Dylai'r Cyngor fod yn fwy arloesol o ran sut mae'n ymgysylltu â'r cyhoedd yn ei weithgareddau craffu.</p>	<p>Mae swyddogion wedi llunio a gweithredu Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â'r Cyhoedd gyda phrosiectau i'w lansio yn y flwyddyn fwrdeistrefol newydd megis Cylchlythyr Craffu, cyfleuster e-ddeiseb, a ffurflenni cyflwyno ar-lein sy'n caniatáu i aelodau'r cyhoedd gyflwyno sylwadau neu gwestiynau sy'n ymwneud ag eitemau ar yr agenda Craffu, neu ofyn i'r Pwyllgor ystyried pynciau. Mae swyddogion hefyd yn parhau i drafod gyda Thîm Cyfathrebu'r Cyngor ynghylch sut y gellir hyrwyddo ymgysylltu â'r cyhoedd â Chraffu ymhellach drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol.</p>
<p>7. GWERTHUSIAD:</p> <p>Dylai'r Cyngor atgyfnerthu sut mae'n gwerthuso effaith a chanlyniadau ei weithgareddau craffu a dysgu o hyn er mwyn llywio gwaith ei drefniant craffu yn y dyfodol.</p>	<p>Fel y dangoswyd gan Gerdyn Adroddiad Craffu Bro Morgannwg a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, mae Swyddogion Craffu wedi cynnal dadansoddiad o ganlyniadau adroddiadau a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol bresennol a blaenorol. Caiff y canlyniadau hyn eu dadansoddi fesul Pwyllgor Craffu a bydd yr wybodaeth a dynnir o'r ymarfer hwn yn bwydo i mewn i'r broses flynyddol ar gyfer nodi meysydd ffocws ar gyfer pob Pwyllgor.</p>

CYSYLLTU Â'R CYHOEDD



MAE TREFNIADAU AR GYFER SIARAD CYHOEDDUS MEWN CYFARFODYDD PWYLLGORAU CRAFFU Y CYNGOR WEDI BOD AR WAITH ERS CHWEFWROR 2016. PLACE SINCE FEBRUARY 2016.

Mae'r rhain wedi'u dylunio i wella/cynyddu cyfleoedd cyfranogiad cyhoeddus ym mhrosesau democrataidd y Cyngor. Mae'r trefniadau hyn wedi'u diweddarau i adlewyrchu'r gweithdrefnau sydd ar waith tra bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal o bell, gydag aelodau o'r cyhoedd yn gallu cymryd rhan trwy lwyfannau fideogynadledda neu alwadau ffôn.

Cydnabyddir hefyd bod angen rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r broses ac mae Swyddogion o'r Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu wedi bod yn cydweithio â'r Uned Gyfathrebu yn hyn o beth. Fel rhan o ymateb Swyddogion i'r cynigion a wnaed gan Archwilio Cymru, mae Cynllun Gweithredu Ymgysylltu â'r Cyhoedd yn cael ei roi ar waith ac mae camau'n cael eu cymryd i wella ymgysylltu â'r cyhoedd mewn gweithgarwch Craffu (*gweler tudalen 17, Swyddogaeth 6*).

Mae Canllaw i Siarad yn Gyhoeddus mewn cyfarfodydd Craffu ar gael i'r cyhoedd ar wefan y Cyngor yma:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/The-Vale-of-Glamorgan-Council.aspx/

[Cyfranogiad-y-cyhoedd-yng-nghyfarfodydd-y-Cyngor.aspx](#)

Gellir defnyddio'r ddolen uchod hefyd i gael mynediad i ffurflenni y gall aelodau o'r cyhoedd eu llenwi a'u cyflwyno er mwyn cofrestru i siarad mewn cyfarfodydd Craffu ynghylch eitemau penodol ar yr agenda.

Yn ystod y flwyddyn fwrdeistrefol nesaf, bydd trigolion Bro Morgannwg hefyd yn gallu cyflwyno sylwadau neu gwestiynau ynghylch eitemau agenda Craffu, neu awgrymu pynciau i'w hystyried gan Bwyllgorau Craffu trwy lenwi a chyflwyno ffurflenni a fydd ar gael trwy'r un ddolen.

Mae Bro Morgannwg hefyd yn datblygu protocol newydd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd a fydd yn cael ei lansio yn y flwyddyn fwrdeistrefol newydd.



EISIAU GWYBOD MWY?

Os hoffech wybod mwy am waith Craffu, ewch i:https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/scrutiny/Scrutiny.aspx

Gweler ar ein gwefan i weld dyddiadau, amserau a lleoliadau cyfarfodydd Craffu sydd i ddod:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/cy/our_council/Council-Structure/minutes,_agendas_and_reports/minutes-agendas-and-reports.aspx

Neu gallwch gysylltu â'r Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu gan ddefnyddio'r manylion isod

01446 709413 / 01446 709856

✉ democratic@valeofglamorgan.gov.uk



